Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2019

Amser: 09.33 - 11.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5494

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Dai Lloyd AC (Cadeirydd) Jayne Bryant AC Angela Burns AC Helen Mary Jones AC Lynne Neagle AC David Rees AC
Tystion:	Len Richards, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Steve Curry, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Saesneg yn unig) Robert Chadwick, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Abigail Harris, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Staff y Pwyllgor:	Sarah Beasley (Clerc) Tanwen Summers (Dirprwy Glerc) Philippa Watkins (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2 Gwaith craffu cyffredinol: Sesiwn dystiolaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

2.2 Cytunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu:

- manylion am sawl gwaith y bu'n rhaid i wasanaethau y tu allan i oriau weithredu ar raddfa lai
- yr amseroedd aros presennol ar gyfer y targed o 48 awr ar gyfer mynediad CAMHS brys a'r hyn sy'n digwydd i bobl ifanc ar ôl iddynt gael yr asesiad cyntaf hwnnw – am faint maent yn aros am unrhyw ymyriadau therapiwtig
- pa wasanaethau fydd y gwasanaeth hunaniaeth rywedd yng Nghaerdydd a'r Fro yn eu darparu

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu gyda'r cwestiynau nas cyrhaeddwyd.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar gyfer eitem 1 ar 11 Gorffennaf 2019

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2019 ar gyfer eitem 1.

4 Gwaith craffu Cyffredinol ar Fyrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.